# COFNODION PWYLLGOR Y TY

Dyddiad: 6 Mawrth 2003

Amser: 9.00am

Lleoliad: Ystafell Gynadledda B

Yn bresennol:

**Aelodau:**
Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Y Llywydd
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Jocelyn Davies, AC Plaid Cymru
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory AC Llafur

**Swyddogion:**
Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Clerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfathrebu
Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad
Wayne Cowley, Y Swyddfa Ffioedd
Nerys Evans, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, YP y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau (rhan o'r cyfarfod)
Debra Carter, Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (rhan o'r cyfarfod)

**Ymddiheuriadau:**
Carwyn Jones, AC Llafur
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol

## 1 Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi

Caiff cofnodion cyfarfod 30 Ionawr 2003 eu cyhoeddi ar 13 Mawrth 2003.

## 1.1 Y Diweddaraf am y Rhestr 'Camau i'w Cymru' HC-02-03-01

Cynllun Iechyd Galwedigaethol Swyddfa'r Llywydd

Dywedodd Nerys Evans fod y Cynghorydd Iechyd Galwedigaethol ym Mharc Cathays yn ymweld â Bae Caerdydd bob wythnos. Mae Swyddfa'r Llywydd wrthi'n penodi ei Chynghorydd Iechyd Galwedigaethol ei hun.

Eitemau a roddwyd gerbron yr Is-grwp Arlwyo

Roedd yr Is-grwp Arlwyo wedi cwrdd y noson cynt. Trafodwyd bwydlenni Gwahoddedigion ac Ystafell De'r Aelodau.

Dywedodd Nerys Evans bod yr is-grwp yn teimlo y dylid darparu mwy o ystafelloedd bwyta i Aelodau wedi agor Adeilad newydd y Cynulliad. Caiff y mater ei drafod yn fanylach ar yr adeg briodol.

Trefniadau Pensiwn i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

Dywedodd Wayne Cowley bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Caiff y mater ei ystyried ymhellach pan edrychir ar ddrafft diwygiedig y datganiad enghreifftiol o amodau a thelerau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, sy'n eitem ar yr agenda hon.

Gwisg Gorfforaethol i staff sy'n dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Dywedodd Gwen Parry y byddent yn penderfynu ar y dyluniad terfynol cyn bo hir.

Papurau Pwyllgor

Dywedodd y Cadeirydd fod Panel y Cadeiryddion wedi trafod nodi'r dyddiad y daw papurau i law oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Uned Gyfieithu yn cadw cofnod o'r dyddiadau y maent yn derbyn ac yn dychwelyd papurau. Dylai felly fod yn bosibl gweld pam fod papur yn hwyr a thwy hynny, gwella'r drefn fel bod mwy o bapurau ar gael yn Gymraeg.

Cofrestru Grwpiau Traws-bleidiol

Caiff y llythyr am y broses gofrestru a anfonwyd ar ran Pwyllgor y Ty at y Pwyllgor Safonau ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

Yswiriant indemnedd

Cadarnhaodd Wayne Cowley bod gwaith ar hyn yn mynd rhagddo. Caiff yr eitem ei chadw ar y rhestr o bethau i'w gwneud.

**Camau i'w cymrud: Wayne Cowley**

Deddfwriaeth Diogelu Data

Dywedodd Paul Silk fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cysylltu â Thy'r Cyffredin a phob corff perthnasol gyda golwg ar roi cyngor cynhwysfawr ac ymarferol i Aelodau ar sut i gydymffurfio â'r ddeddf diogelu data. Dywedodd Peter Jones ei fod yn gobeithio y bydd cyngor ar gael hefyd i'r Cynulliad newydd ym mis Mai.

**2. Camau i'w Cymryd yn sgil Cyfarfodydd yr Is-grwpiau.**

Cyfarfod Is-grwp yr ICT 12 Chwefror 2003 HC-02-03-02

Cymeradwyodd Pwyllgor y Ty y cofnodion.

Gofynnodd Peter Black fod ymholiadau'n cael eu gwneud am amserau bysus yn ogystal ag amserau trenau, os gwelir ei bod yn ymarferol darparu bwrdd amserau cludiant.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth**

Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo 5 Mawrth 2003

Caiff y cofnodion eu dosbarthu erbyn cyfarfod nesa' Pwyllgor y Ty.

## 3. Adroddiadau Clerc y Cynulliad

Papur ar berfformiad yn erbyn targedau HC-02-03-03

Mae nifer yr ymholiadau sydd wedi dod i law am Gwestiynau'r Cynulliad a Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau wedi cynyddu'n ddiweddar. Mae lefel y ceisiadau am waith cyfieithu ysgrifenedig yn uchel. Roedd papurau Mis Chwefror y Pwyllgor Busnes yn hwyr am fod Llywodraeth y Cynulliad wedi'u hanfon allan yn hwyr.

Adroddiad Cyllid Swyddfa'r Llywydd HC-02-03-04

Nodwyd y papur.

MEG diwygiedig Swyddfa'r Llywydd 2002-2003 i 2005-2006 HC-02-03-05

Dywedodd Wayne Cowley bod angen gwneud newidiadau i Brif Grwp Gwariant (MEG) Swyddfa'r Llywydd yn sgil trosglwyddo Llyfrgell Parc Cathays i Lywodraeth y Cynulliad. Bydd gofyn trosglwyddo adnoddau i adlewyrchu'r newid hwn.
Mae'r Trysorlys wedi rhoi gwybod y bydd cost y gyfradd gyfalaf yn newid ar Ebrill 1. O ganlyniad, bydd gofyn ailgyfrif y costau cyfalaf yng nghyllideb Swyddfa'r Llywydd.

Nododd y Pwyllgor bod y newidiadau wedi'u trafod a bod y Gweinidog Cyllid wedi cytuno arnynt. Caiff cynnig ei gyflwyno i ddod â'r newidiadau i rym.

Swyddogaethau a Materion wedi'u Dirprwyo HC-02-03-06

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Glerc y Cynulliad am ei bapur defnyddiol llawn gwybodaeth am swyddogaethau a mater dirprwyedig Pwyllgor y Ty. Cytunwyd i roi'r papur gerbron y Pwyllgor newydd, iddyn nhw gael ei ailystyried.

Tlws y Cynulliad Cenedlaethol HC-02-03-07

Cytunodd yr Aelodau y dylid rhoi logo newydd y Cynulliad ar y tlws, wedi cael cyngor ar ei ddyluniad. Awgrymodd William Graham y dylai'r logo fod ar lun cadwcews (seirff cordeddog).

## 4 Adrannau Swyddfa'r Llywydd - Adroddiadau/Materion

### 4.1 Rheoli Swyddfa/Cyfleusterau

Prosiectau Gwaith Mân Newydd HC-02-03-08

Nododd y Pwyllgor hynt y prosiectau gwaith mân newydd.

Swyddfeydd i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau
HC-02-03-09

Nododd y Pwyllgor y trefniadau i gael swyddfa i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Caiff yr Aelodau wybod pryd bydd y gwasanaeth yn symud.

### 4.2 Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Prosiect Merlin

Dywedodd Dianne Bevan bod tendrwyr Prosiect Merlin wedi cael gwybod am y materion a godwyd yng nghyfarfod diwetha' Pwyllgor y Ty (gan gynnwys gwella cysylltiadau o bell a chyflymder cysylltu â swyddfeydd etholaeth). Mae syniadau Aelodau wedi'u cymryd i ystyriaeth.

Nodwyd y bydd Bwrdd Prosiect Aelodau'r Cynulliad a Swyddfa'r Llywydd yn cwrdd ar 7 Mawrth.

Gwerthusiad Interim o Brosiect Gwe-ddarlledu Peilot y Cynulliad Cenedlaethol HC-02-03-10

Cytunodd yr Aelodau i ymestyn y prosiect gwe-ddarlledu peilot am dri mis arall er mwyn treialu gwasanaeth gwell sydd wedi cael mwy o gyhoeddusrwydd.

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion edrych a fyddai'n bosibl i swyddfeydd etholaeth dderbyn gwe-ddarllediadau. Dywedwyd na fyddai hynny'n bosibl gyda'r rhwydwaith presennol. Fodd bynnag, caiff y mater ei roi gerbron Bwrdd Prosiect Aelodau'r Cynulliad a Swyddfa'r Llywydd iddynt ei ystyried fel rhan o brosiect Merlin.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

Cyfieithu ar y Pryd mewn Cyfarfodydd gydag Aelodau'n bresennol

Dywedodd Gwen Parry fod y gwaith yn mynd rhagddo. Caiff papur ei gyflwyno i gyfarfod nesa' Pwyllgor y Ty.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

Darparu'r Gwasanaethau Gwybodaeth i'r Cyhoedd drwy'r flwyddyn
HC-02-03-11

Roedd yr Aelodau o blaid agor Canolfan Ymwelwyr Glanfa'r Cynulliad bob penwythnos drwy'r flwyddyn. Cytunwyd y dylid cyflogi staff penodol i weithio dros benwythnosau, gyda chymorth un aelod o'r tîm craidd ar rota.

Gofynnodd yr Aelodau bod cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r oriau agor estynedig.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

<u>Agoriad Brenhinol y Cynulliad Cenedlaethol Mehefin 2003 HC-02-03-12</u>

Nododd yr Aelodau gynnwys y papur. Roedd Jocelyn Davies yn ofidus nad oedd y Pwyllgor wedi cael gwybod am y trafod a fu am am y cynigion ac na fu cyfle i ymgynghori â grwpiau'r pleidiau. Ymddiheurodd y Cadeirydd am hyn.

Cytunodd yr Aelodau ar amcangyfrif y gost. Bydd y gymuned leol yn cael cyfle i gymryd rhan yn y digwyddiadau.

<u>Y diweddaraf am Gysylltiadau Tramor ac Allanol<br>HC-02-03-13</u>

Nododd yr Aelodau y papur

**4.3 Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**

<u>Presenoldeb y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel HC-02-03-14</u>

Cytunodd yr Aelodau i ystyried y papur yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

**4.4 Gweinyddu, gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau**

<u>Cadw Cofnodion Gweinyddol am Aelodau HC-02-03-15</u>

Nododd yr Aelodau y papur a'r cynigion i adolygu'r drefn bresennol ar gyfer cadw cofnodion gweinyddol. Cytunodd yr Aelodau y dylai swyddogion holi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Chyllid y Wlad a gofyn i Swyddog Cofnodion yr Adran am gyngor ar oblygiadau Deddf Cofnodion Cyhoeddus.

Caiff unrhyw argymhelliad i newid ei roi gerbron y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

<u>Y Diweddaraf am y Gyflogres HC-02-03-16</u>

Dywedodd Wayne Cowley y bydd slipiau cyflog, wedi trosglwyddo i'r gyflogres newydd, ar gael yn newis iaith y derbynydd, yn unol â chais Pwyllgor y Ty. Mae profion gweithredu i'w cynnal cyn y bydd hyn yn barod.

<u>Gwerthusiad Teirblynyddol o Gynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol</u>

Cymru HC-02-03-17

Caiff adroddiad ar werthusiad teirlbynyddol o Gynllun Pensiwn yr Aelodau ei gyhoeddi gan Actiwari'r Llywodraeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yn debygol o effeithio ar gyllideb y Swyddfa Llywydd gan y bydd, fwy na thebyg, yn cynnwys argymhelliad bod y Cynulliad yn cynyddu'i gyfraniad i'r gronfa bensiynau.

Nododd yr aelodau y papur

Gweithdrefnau Ariannol Diwedd Blwyddyn y Swyddfa Ffioedd HC-02-03-18

Gofynnodd Wayne Cowley i Aelodau nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau am lwfansau diwedd blwyddyn. Cytunodd yr Aelodau i godi'r mater gyda'u grwpiau.

Cytunwyd bod y Swyddfa Ffioedd yn anfon nodyn at yr holl Aelodau i ddweud wrthynt am y trefniadau diwedd blwyddyn a'u hysbysu am grynodebau cyllidol.

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

Cyhoeddi Manylion Cyflogau a Lwfansau Aelodau HC-02-03-19

Cytunodd yr Aelodau y dylid cyhoeddi manylion cyflogau a lwfansau Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2001-02, gan ddilyn yr un fformat â chynt.

Rhoddir gwybod i aelodau fydd yn dychwelyd i'r Cynulliad wedi'r etholiad ym mis Mai bod posibilrwydd y caiff ystadegau am eu lwfansau eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

Drafft Dwiygiedig y Datganiad Enghreifftiol o Amodau a Thelerau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad HC-02-03-20

Dywedodd Wayne Cowley bod drafft diwygiedig o'r datganiad enghreifftiol o amodau a thelerau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn cael ei gyflwyno, hynny wedi trafodaeth â chynrychiolwyr staff cymorth pob plaid ac ACAS. Mae'r datganiad enghreifftiol newydd yn adlewyrchu Deddf Gyflogaeth newydd 2002 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2003, gan gynnig telerau mwy manteisiol i staff.

Cytunodd yr Aelodau mai'r Swyddfa Ffioedd ddylai gwneud y trefniadau i drosglwyddo cyfraniadau i'r cynllun pensiwn priodol oni bai bo'r aelod o staff yn dewis eithrio a gofyn am i'r cyfraniadau fynd yn syth i gynllun pensiwn personol.

Cytunodd yr Aelodau y dylid anfon copi o'r bennod ar bensiynau at yr holl staff cymorth nad ydynt eto wedi cofrestru ar gyfer pensiwn.

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

Croesawodd yr Aelodau drafft diwygiedig y Datganiad Enghreifftiol o Amodau a Thelerau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a chytunwyd y bydd ar gael i holl Aelodau'r Cynulliad wedi'r etholiad. Pe bai Aelodau am drosglwyddo staff, ni fyddai'n effeithio ar hyd gwasanaeth di-dor.

Gofynnodd yr Aelodau am seminar ar faterion cyflogaeth yn y tymor newydd wedi'r etholiad.

**Camau i'w cymryd: Wayne Cowley**

## 5. Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

Cafodd copïau o WAQ22908 a WAQ22909 i'w hateb ar 3 Mawrth 2003 eu dosbarthu ymhlith yr Aelodau.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Croesawodd y Cadeirydd Marie Knox a Debra Carter i'r cyfarfod.

<u>Etholiad 2003: Y Newyddion Diweddaraf am y Prosiect HC-02-03-21</u>

Nododd yr Aelodau y papur a'r amserlen ar gyfer y bythefnos wedi'r etholiad, gan gynnwys sesiynau cynefino i'r Aelodau newydd.

Nid oedd gan yr Aelodau wrthwynebiad i gau'r adeilad yn swyddogol dros benwythnos gwyl y banc, cyn belled na fyddai cyfarfod llawn ddydd Mawrth. Er hynny, bydd cnewyllyn o staff ar gael yn Adeilad y Cynulliad dros benwythnos Calan Mai. Bydd Aelodau'n gallu cael mynediad i'r adeilad dros y penwythnos. Cadarnhaodd y swyddogion y bydd Aelodau'n gallu defnyddio'u pasys diogelwch cyn gynted ag y bydd swyddog cyfrif yn cadarnhau eu bod wedi'u hailethol.

Bydd aelod o staff ar gael i glywed llwon Aelodau newydd a bydd cyfleusterau ar gael dros y penwythnos i roi pasys i Aelodau newydd.

<u>Y Diweddaraf am Brosiect Adeilad Newydd y Cynulliad</u>

Esboniodd Dianne Bevan yr hyn sy'n digwydd gydag adeilad newydd y Cynulliad. Nodwyd y byddai cyswllt gwasanaethu ar wahân rhwng yr adeilad presennol a'r siambr newydd. Bydd y cyswllt hwn yn gysylltiedig â mynedfa'r Aelodau.
Bu'r Aelodau'n trafod codi sgriniau diogelwch yn y siambr newydd a'r ystafelloedd pwyllgora. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n well mewn rhai ffyrdd i beidio â defnyddio sgriniau, ond roedd eu penderfyniad blaenorol wedi'i wneud ar sail cyngor diogelwch. Gofynnwyd i'r swyddogion ailedrych ar y cyngor diogelwch. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am ymchwiliad i oblygiadau technegol ac ymarferol darparu gwasanaethau cyfieithu heblaw Cymraeg/Saesneg yn y siambr newydd.

**Camau i'w cymryd: Tîm Prosiect yr Adeilad Newydd**

Nodwyd y byddai gofyn cynnal cyfarfod arbennig, o bosib, o Bwyllgor y Ty ym mis Mai i ystyried datblygiadau pellach i'r prosiect.

Enwi Ystafelloedd Cynadledda

Cytunodd yr Aelodau na ddylid enwi Ystafelloedd Cynadledda ac y dylid cadw at y drefn bresennol.

Cais gan Undeb Llafur

Mae cynrychiolydd Ochr yr Undeb Llafur wedi gofyn am gael dod i Bwyllgor y Ty. Pe bai Pwyllgor y Ty'n dewis cyfarfod yn gyhoeddus wedi'r etholiad, nodwyd y dylai'r TUS gael bod yn bresennol fel sylwebydd.

Gwerthu Llyfrau yn y Neuadd

Dywedodd y Llywydd fod ganddo fudd yn y mater hwn gan fod bwriad ganddo gyhoeddi llyfr yn y dyfodol.

Cytunodd yr Aelodau y dylid newid y canllawiau ar werthu nwyddau yn y Cynulliad er mwyn ei gwneud hi'n bosib gwerthu llyfrau pan fydd llyfrau'n cael eu lansio yn yr adeilad. Gofynnir i'r Is-grwp Celf ystyried amodau a chanllawiau ar ba gyhoeddiadau y byddai'n addas eu lansio yn yr adeilad.

**Camau i'w cymryd: Is-grwp Celf**

Presenoldeb y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel
HC-02-03-14

Bu'r Aelodau'n ystyried yr opsiynau yn y papur a chytunwyd bod angen mwy o wybodaeth am ba wasanaethau y gallai Canolfan Ewropeaidd Cymru eu darparu ac am ba bris. Cytunwyd i ddosbarthu llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Canolfan Ewropeaidd Cymru ymhlith aelodau'r Pwyllgor ac i wahodd y WEC i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

Cytunodd yr Aelodau i gynnal cyfarfod arbennig cyn pen pythefnos neu dair ac y gallai'r WEC roi cyflwyniad iddynt bryd hynny.

**Camau i'w cymryd: Marie Knox**

Ffotograffau o Aelodau'r Cynulliad

Dywedodd y Cadeirydd bod cynnig wedi dod i law i dynnu cyfres o ffotograffau o'r Aelodau yn y Siambr cyn yr etholiad. Awgrymwyd bod llun yn cael ei dynnu hefyd o'r Aelodau'r newydd wedi'r etholiad. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r ffotos yn gofnod gwerthfawr.

Cynllun Cydraddoldeb Hiliol

Dywedodd y Cadeirydd iddo dderbyn llythyr oddi wrth y Gweinidog Llywodraeth Agored am y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a gaiff ei lansio gan y Cynulliad ym mis Mai.

Roedd y Gweinidog am hysbysu Pwyllgor y Ty y byddai'n rhaid gohirio dyddiad y cynllun tan ar ôl yr etholiad ac wedi sefydlu'r Cynulliad newydd, er mwyn gallu cynnal ymgynghoriad trylwyr.

Nododd yr Aelodau y llythyr.

<u>Statws Diogelwch</u>

Dywedodd Nerys Evans y dylai'r Aelodau wybod y gallai'r statws diogelwch yn Adeilad y Cynulliad newid ar fyr rybudd yn yr wythnosau i ddod.  Gallai hynny olygu mesurau diogelwch mwy caeth a gofynnwyd i'r Aelodau am eu cydweithrediad yn hyn o beth.

<u>Poteli Oeri Dwr</u>

Dywedodd Janice Gregory bod pobl wedi gofyn iddi a fyddai'n bosibl cael mwy o boteli dwr ar loriau'r swyddfeydd.  Cadarnhaodd yr Aelodau benderfyniad blaenorol Pwyllgor y Ty a chytuno y dylid gosod poteli oeri dwr yn y ceginau bach yn yr adeilad.

<u>Logo'r Cynulliad Cenedlaethol</u>

Dywedodd Gwen Parry fod cynrychiolwyr yr Undebau Llafur wedi dweud wrth eu swyddogion yn y Cynulliad i ddefnyddio logo'r Cynulliad. Gofynnodd yr Aelodau i Gwen Parry ymchwilio i'r canllawiau ar ddefnyddio'r logo ac yn arbennig, i weld beth oedd y rheolau yn Nhy'r Cyffredin.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

Dywedodd yr Aelodau ei bod hi'n cymryd amser i agor dogfennau electronig sy'n defnyddio'r logo.  Roeddent yn awyddus i bobl beidio â'i orddefnyddio.  Bydd y swyddogion yn dweud hynny wrth y staff.

**Camau i'w cymryd: Swyddogion**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** i'w gyhoeddi
Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty